# Pecyn Dogfen Gyhoeddus

Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas / 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Edward Michael Hughes (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

**Aelodau Cyfetholedig**
Robert Dewey, Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Ann Earlam a Kenneth Harry Molyneux

26 Medi 2017

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod Pwyllgor Safonau a gynhelir yn 6.00 pm Dydd Llun, 2ail Hydref, 2017 yn Swyddfa Cyngor Tref, Adeilad Cei, Ffordd Fron, Cei Connah CH5 4PJ i ystyried yr eitemau canlynol

**<u>* Sylwch ar yr amser a'r lleoliad ar gyfer y cyfarfod *</u>**

## R H A G L E N

**1 YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**Pwrpas:** I derbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

**3 COFNODION** (Tudalennau 3 - 10)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 4 Medi 2017.

4 **CYFLWYNIAD ODDI WRTH OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

**Pwrpas:** Bydd Mr Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn mynychu er mwyn rhoi cyflwyniad ar y testun canlynol:

*'Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygiadau ar bob lefel o lywodraeth leol gan gynnwys cyflwyno pŵer cyffredinol o gymhwysedd. Cyn i'r diwygiadau hynny ddigwydd, oes yna unrhyw beth yr ydych yn credu fod angen i lywodraeth leol ei wneud er mwyn paratoi, ac ydych chi'n meddwl bod angen newidiadau i'r cod ymddygiad a'r drefn foesegol yn benodol'*

Bydd cyfle i gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r pwyllgor i ofyn cwestiynau wrth yr Ombwdsmon ac i drafod y materion a godwyd.

5 **GODDEFEBAU**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw geisiadau am oddefebau.

6 **ADOLYGU GODDEFEBAU** (Tudalennau 11 - 14)

**Pwrpas:** Cael adroddiad dilynol i'r hyn a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol.

7 **CYFARFOD FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

**Pwrpas:** Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar 24 Tachwedd 2017 yn Wrecsam. Oes yna unrhyw faterion yr hoffai'r Pwyllgor eu rhoi ar y rhaglen? Y dyddiad cau ar gyfer awgrymu eitemau yw 13 Tachwedd.

8 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 15 - 16)

**Pwrpas:** Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried testunau i'w cynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Yn gywir



Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**PWYLLGOR SAFONAU**
**4 MEDI 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar ddydd Llun, 4 Medi 2017.

**YN BRESENNOL:** **Robert Dewey (Is-gadeirydd yn y Gadair)**
Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley.

Aelodau Cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen a Ken Molyneux

Ymddiheuriadau: Ed Hughes a Phillipa Earlam

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Is-swyddog Monitro a Swyddog Pwyllgor

**18. DATGANIADAU O DDIDDORDEB (gan gynnwys datganiadau chwipio)**

Datganodd y Cynghorydd Arnold Woolley diddordeb personol a rhagfarnus yn eitem rhif 5 ar yr Arolwg o Ryddhad a oedd yn ymwneud yn benodol â Chyngor Tref Bwcle.

**19. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2017.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod wedi dosbarthu manylion Cyfnodau yn y Swydd ar gyfer aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cofnodion yn cael eu derbyn, eu cymeradwy a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

**20. RHYDDHAD**

Ar ôl dosbarthu'r agenda, cafwyd dau gais am ryddhad gan y Cynghorydd Sir Carol Ellis, a Chynghorydd Tref Bwcle David Ellid

Darparodd yr Is-swyddog Monitro fanylion y ceisiadau a oedd yn gysylltiedig â chais cynllunio (rhif cyfeirnod: 057259) a fyddai'n effeithio ar Ganolfan Gymunedol Hawkesbury.

Cynghorydd Tref Bwcle David Ellis

Darparodd y Swyddog Monitro wybodaeth gefndir i'r cais a oedd yn ceisio "siarad a phleidleisio" ar gais cynllunio a fyddai, pe bai'n caniatâd, yn

effeithio ar Ganolfan Gymunedol Hawkesbury. Cadarnhaodd mai'r paragraff perthnasol y byddai'r cais am ryddhad yn cael ei wneud oddi dano oedd (d).

Cynghorydd Sir Carol Ellis

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried cais am ryddhad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Carol Ellis "i allu siarad ond nid pleidleisio" ar gais cynllunio a fyddai'n effeithio ar bob defnydd yn Ardal Hawkesbury. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro mai'r paragraff perthnasol y byddai'r cais am ryddhad yn cael ei wneud oddi dano oedd (d).

**PENDERFYNWYD:**

Cynghorydd Tref David Ellis
Caniatáu rhyddhad i'r Cynghorydd Tref David Ellis o dan baragraff (d) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Rhyddhad) (Cymru) 2001 i siarad yng Nghyngor Tref Bwcle am y cais (rhif cyfeirnod: 057259), neu unrhyw gais fydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg ond i adael yr ystafell cyn i'r cais gael ei ddadlau a chyn pleidleisio arno. Hefyd i wneud sylwadau ysgrifenedig ar y cais (rhif cyfeirnod: 057259), neu unrhyw gais sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg i Gyngor Tref Bwcle. Caniateir y rhyddhad am gyfnod o 12 mis.

Cynghorydd Sir Carol Ellis
Caniatáu rhyddhad i'r Cynghorydd Sir Carol Ellis o dan baragraff (d) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Rhyddhad) (Cymru) 2001 i siarad am y cais (rhif cyfeirnod: 057259), neu unrhyw gais fydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg yng Nghyngor Tref Bwcle ac am 5 munud yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, ond i adael yr ystafell cyn i'r cais gael ei ddadlau a chyn pleidleisio arno. Hefyd i wneud sylwadau ysgrifenedig ar y cais (rhif cyfeirnod: 057259), neu unrhyw gais sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Y Fflint a/neu Gyngor Tref Bwcle. Caniateir y rhyddhad am gyfnod o 12 mis.

## 21. ADOLYGIAD O GEISIADAU AM RYDDHAD

Cyflwynodd yr Is-swyddog Monitro yr adroddiad ac esboniodd bod rhaid adolygu pob rhyddhad a ganiateir gan y Pwyllgor Safonau ac sy'n parhau i fod ar waith gan y Pwyllgor unwaith bob 12 mis o'r dyddiad y caniatawyd y rhyddhad yn y lle cyntaf.

Dosbarthodd yr Is-swyddog Monitro restr yr holl ganiatâd am ryddhad a roddwyd gan y Pwyllgor a oedd yn parhau i fod ar waith yn ogystal â'r rhai a oedd wedi dod i ben yn ddiweddar ond roedd y Cynghorwyr dan sylw wedi gofyn iddynt gael eu hymestyn. Gofynnwyd i'r Pwyllgor benderfynu p'un ai a ddylai'r rhyddhad barhau i fod ar waith neu gael eu hymestyn.

Esboniodd yr Is-swyddog Monitro bod yna sawl caniatâd am ryddhad ar gofnod a oedd wedi'u rhoi 10 mlynedd ynghynt a bod llythyrau wedi cael eu

hanfon at bob Aelod i roi gwybod iddynt am yr argymhelliad i ddileu rhyddhad a roddwyd 10 mlynedd yn ôl neu fwy. Gofynnwyd i aelodau gysylltu â'r Swyddog Monitro i neu Is-swyddog Monitro os oedd ganddynt unrhyw bryderon am y cynnig. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried a chymeradwyo cael gwared ar ryddhad a roddwyd dros 10 mlynedd ynghynt. Cynigiodd y Cynghorydd Paul Johnson y dylid cytuno ar yr argymhelliad a chafodd hyn ei eilio gan Ken Molyneux a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor.

Esboniodd yr Is-swyddog Monitro bod Cynghorwyr a chanddynt ryddhad effeithiol wedi cael gwybod am ofyniad y Pwyllgor Safonau i adolygu eu rhyddhad a phenderfynu p'un ai a fyddant yn parhau i gael effaith, yn ogystal â'r rheiny a chanddynt ryddhad a oedd wedi dod i ben yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD:**

Dileu pob rhyddhad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau dros 10 mlynedd ynghynt.

Cynghorydd Sir Dennis Hutchinson
Caniatáu rhyddhad i'r Cynghorydd Dennis Hutchinson o dan baragraff (h) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Rhyddhad) (Cymru) 2001 am gyfnod o 12 is (yn dod i ben ar 3 Medi 2018) i siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Bwcle wrth ystyried cais am gymorth ariannol gan Ganolfan Gymunedol Hawkesbury. Mae'r rhyddhad yn caniatáu iddo aros yn yr ystafell i siarad ac ateb cwestiynau ond rhaid iddo adael yr ystafell (ac felly ddim pleidleisio) ar ôl gwneud hynny.

Cynghorwyr Sir Dennis Hutchinson a Mike Peers
Caniatáu rhyddhad i'r Cynghorwyr Dennis Hutchinson a Mike Peers am gyfnod o 12 mis (yn dod i ben ar 3 Medi 2018) o dan baragraffau (d), (f) a (h) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Rhyddhad) (Cymru) 2001 i gyfathrebu gyda swyddogion Cyngor Tref Bwcle a Chyngor Sir Y Fflint mewn pob mater sy'n gysylltiedig â Hen Neuadd Gymunedol Baddonau Bwcle Cyfyngedig i:

- siarad ac ateb cwestiynau
- Gadael y cyfarfod cyn i'r ddadl ddechrau
- peidio â phleidleisio
- cyfathrebu gyda swyddogion mewn ysgrifen
- trafod gyda swyddogion os oedd o leiaf 3 pherson yn bresennol - 2 annibynnol (nid ymddiriedolwr arall na'u gwraig) a bod trafodaethau'n cael eu cofnodi

Cynghorydd Sir Dennis Hutchinson

Caniatáu rhyddhad i'r Cynghorydd Dennis Hutchinson am gyfnod o 12 mis (yn dod i ben ar 3 Medi) o dan baragraffu (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Rhyddhad) (Cymru) 2001 i siarad am bum munud mewn perthynas â chais cynllunio rhif 056023 a hefyd ceisiadau dilynol am ddatblygiad preswyl

ar y tir gyferbyn y ceir mynediad iddo drwy'r cais hwnnw, ac i gyfathrebu gyda swyddogion mewn ysgrifen.

<u>Cynghorwyr Tref Stephen Rodham a Shelley Streeter</u>

Y dylai'r rhyddhau a roddwyd gan y Pwyllgor ar 4ydd Gorffennaf 2016 mewn perthynas â Throsglwyddo Ased Cymunedol y Ganolfan Gymunedol, Llyfrgell a Chanolfan Ieuenctid barhau nes yr 2il Hydref 2017, pan ddaw i ben, oni fydd y Cynghorwyr wedi cysylltu â'r Swyddog Monitro neu Is-swyddog Monitro cyn y dyddiad hwnnw gyda chais i'r Pwyllgor ystyried ymestyn y rhyddhad, a bod y cais hwnnw yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

<u>Cynghorwyr Cymunedol J Lamb a H Lamb</u>

Y dylai'r rhyddhad a roddwyd gan y Pwyllgor ar 4ydd Gorffennaf 2016 mewn perthynas â Throsglwyddo Ased Cymunedol y Ganolfan Gymunedol, Llyfrgell a Chanolfan Ieuenctid barhau nes yr 2il Hydref 2017, pan ddaw i ben, oni fydd y Cynghorwyr wedi cysylltu â'r Swyddog Monitro neu Is-swyddog Monitro cyn y dyddiad hwnnw gyda chais i'r Pwyllgor ystyried ymestyn y rhyddhad, a bod y cais hwnnw yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

<u>Cynghorydd Sir Veronica Gay</u>

Y dylai'r rhyddhad a roddwyd gan y Pwyllgor ar 4ydd Gorffennaf 2016 mewn perthynas â Throsglwyddo Ased Cymunedol y Ganolfan Gymunedol, Llyfrgell a Chanolfan Ieuenctid barhau nes yr 2il Hydref 2017, pan ddaw i ben, oni fydd y Cynghorwr wedi cysylltu â'r Swyddog Monitro neu Is-swyddog Monitro cyn y dyddiad hwnnw gyda chais i'r Pwyllgor ystyried ymestyn y rhyddhad, a bod y cais hwnnw yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

<u>Cynghorydd Sir Mike Peers</u>

Bod y rhyddhad a roddwyd gan y Pwyllgor ar 7fed Gorffennaf 2014 i'r Cynghorydd Mike Peers allu cymryd rhan yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Bwcle pan fydd yn dadlau am faterion sy'n effeithio ar Gyngor Cymunedol Hawkesbury barhau nes 3 Medi 2018 pan ddaw i ben. Rhoddir y rhyddhad o dan baragraffau (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Rhyddhad) (Cymru) 2001 ac mae'n caniatáu i'r Cynghorydd Peers gysylltu â swyddogion mewn ysgrifen, aros yn yr ystafell i siarad ac ateb cwestiynau ond rhaid iddo adael yr ystafell (ac felly peidio â phleidleisio) ar ôl gwneud hynny.

<u>Cynghorydd Cymunedol K Houghton ac aelodau eraill Cyngor Cymunedol Argoed a oedd y cael eu cynrychioli ar MIFFY</u>

Y dylai'r rhyddhad a roddwyd gan y Pwyllgor ar 14eg Medi 2009 mewn perthynas â darparu cyfleusterau ieuenctid yn ardal y cyngor cymunedol barhau nes yr 2il Hydref 2017, pan ddaw i ben, oni fydd clerc y Cyngor Cymunedol wedi cysylltu â'r Swyddog Monitro neu Is-swyddog Monitro ar ran y Cynghorwyr Cymunedol cyn y dyddiad hwnnw gyda chais i'r Pwyllgor

ystyried ymestyn y rhyddhad, a bod y cyfryw gais yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Bod pob rhyddhad sy'n weddill a roddwyd gan y Pwyllgor, yn ôl y rhestr a ddosbarthwyd gan yr Is-bwyllgor Monitro yn y cyfarfod, yn cael eu dileu.

## 22. AELODAETH Y PWYLLGOR – LLE GWAG AR Y PWYLLGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad a siaradodd am y lle gwag sydd ar y Pwyllgor Safonau ar gyfer aelod lleyg. Rhoddodd wybod iddynt fod yr Awdurdod Tân hefyd yn ceisio penodi aelod lleyg i'w Bwyllgor Safonau ac o ganlyniad roedd yna gyfle i ystyried hysbysebu ar y cyd am y penodiad a'r posibilrwydd o benodiad ar y cyd i leihau costau a rhoi proffil uwch i'r ymgyrch hysbysebu.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd, esboniodd y Swyddog Monitro nad yw'r cyfnod yn y swydd i aelod lleyg o'r Pwyllgor yn llai na phedair nac yn fwy na chwe blynedd. Roedd rheoliadau'n gofyn i banel penodi gael ei sefydlu a meini prawf penodol gael eu pennu ar gyfer unrhyw aelod lleyg a benodir i'r Pwyllgor. Yn ystod y trafodaethau awgrymwyd y gellid sefydlu panel cyfweld ar y cyd gyda'r Awdurdod Tân yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor a'r Awdurdod Tân, Cynghorydd Cymunedol, aelod lleyg, a Chadeirydd yr Awdurdod Tân. Byddai hyn yn golygu cyfanswm o ddau gynrychiolydd o'r Cyngor, dau gynrychiolydd o'r Awdurdod Tân, ac unigolyn lleyg.

Yn ystod trafodaeth cymeradwywyd yr argymhelliad i geisio cydsyniad yr Awdurdod Tân i hysbysebu ar y cyd gyda'r Cyngor am aelod lleyg i Bwyllgorau Safonau'r ddau awdurdod, a dylid archwilio'r posibilrwydd o benodi ar y cyd gyda'r Awdurdod Tân. Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at y panel cyfweld ar y cyd a awgrymwyd a chynnig bod hyn hefyd yn cael ei gymeradwyo a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Arnold Woollet.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Johnson ynghylch cydbwysedd y rhywiau ac aelodaeth ar y Pwyllgor, cydnabu'r Swyddog Monitro y pwyntiau a godwyd a dywedodd y byddai'n siarad gyda'r tîm cyfathrebu i geisio ystod eang o ymgeiswyr i'w hystyried. Awgrymodd ei fod yn dosbarthu copïau o'r meini prawf a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer recriwtio aelodau annibynnol i'r Pwyllgor, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dylid ceisio cydsyniad yr Awdurdod Tân i hysbysebu ar y cyd gyda'r Cyngor am aelod lleyg i Bwyllgorau Safonau'r ddau awdurdod, a dylid archwilio'r posibilrwydd o benodi ar y cyd gyda'r Awdurdod Tân; a

(b) Y dylid sefydlu panel cyfweld ar y cyd a fyddai'n cynnwys Cadeiryddion Pwyllgor Safonau'r Cyngor a'r Awdurdod Tân, Cynghorydd Cymunedol, aelod lleyg, a Chadeirydd yr Awdurdod Tân.

**23. ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN 2016/17**

Cyflwynodd yr Is-swyddog Monitro yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r prif faterion yn yr Adroddiad Blynyddol gyda ffocws arbennig ar safonau cynghorwyr Sir a Thref a Chymuned. Rhoddodd wybod mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol oedd adrodd ar berfformiad swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) dros y flwyddyn ac i gyflwyno unrhyw negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriodd yr Is-swyddog Monitro at y prif ystyriaethau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghylch cwynion Cod Ymddygiad ac achosion cod ymddygiad.

Yn ystod y drafodaeth cytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn dosbarthu copi lliw o'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

**24. YMWELIAD YR OMBWDSMON Â CHYD-GYFARFODYDD Y PWYLLGOR SAFONAU A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad ar ymweliad nesaf yr Ombwdsmon, Mr. Nick Bennet, â chyd-gyfarfod y Pwyllgor Safonau a Chynghorau Tref a Chymuned ar 2 Hydref 2017. Cyfeiriodd at y cwestiynau a gyflwynwyd i'w trafod hyd yma a rhoddodd wybod bod Cynghorau Tref a Chyngor hefyd wedi'u gwahodd i gyflwyno cwestiynau. Gofynnodd y Swyddog Monitro i aelodau'r Pwyllgor os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r Ombwdsmon. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y cwestiynau a ganlyn:

- Pa effaith mae'r broses hidlo yn ei gael ar lwyth gwaith yr Ombwdsmon?
- Beth yw'r broses ar gyfer gwrthod derbyn cwyn?
- Oes yna hawl i atgyfeirio neu arolwg?

Awgrymodd y Swyddog Monitro bod diwygio Cynghorau Tref a Chymuned yn bwnc addas i'w ddadlau yn y cydbwyllgor a chefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drefniadau etholiadau lleol ac awgrymodd y gellid hefyd talu sylw i'r mater hwn yn y cyfarfod, os yn bosibl.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 25. RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro y rhaglen waith i'r dyfodol a cyfeiriodd at bynciau'r cyfarfod nesaf.

Gan roi sylwadau ar bwnc rhyddhad, dywedodd y Swyddog Monitro y gellid gofyn i'r Pwyllgor ystyried unrhyw 'adnewyddiadau' pellach sy'n codi o ganlyniad i'r arolwg o rhestr rhyddhad a'r cyfnod estynedig a roddwyd i gynghorwyr.

Cytunodd y Swyddog Monitro ddarparu diweddariad i'r cyfarfod nesaf ar recriwtio unigolyn lleyg i'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol gan gynnwys yr eitemau uchod.

## 26. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd dim aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a daeth i ben am 7.45pm.

……………………….
**Cadeirydd**

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

| STANDARDS COMMITTEE |
|---|

| | |
|---|---|
| **Date of Meeting** | Monday, 2 October 2017 |
| **Report Subject** | Review of Dispensations |
| **Report Author** | Monitoring Officer |

## EXECUTIVE SUMMARY

On the 4 September 2017 the committee conducted a review of dispensations pursuant to section 81(4) of the Local Government Act 2000 (the Act) which requires those dispensations that remain extant to be reviewed by the standards committee once in every 12 month period from the date on which the dispensation is first granted.

When conducting the review the committee determined which dispensations should continue to have effect and which should be cancelled. The committee determined to extend dispensations that were due to expire until the 2 October 2017 and the Deputy Monitoring Officer undertook to write to those members whose dispensations would expire on this date to inform them of this and, should they wish for their dispensations to be further extended, that they should contact the Monitoring Officer or Deputy Officer so that those requests could be considered by the committee on the 2 October 2017.

| **RECOMMENDATIONS** | |
|---|---|
| 1 | That the dispensation granted to Councillor Veronica Gay by the Committee on the 4th of July 2016 in respect of the Community Asset Transfer of the Community Centre, Library and Youth Centre should continue until the 1st of October 2018. |

## REPORT DETAILS

| **1.00** | **DISPENSATIONS** |
|---|---|
| 1.01 | The Deputy Monitoring Officer has written to all Town and Community Councillors and County Councillors who have a relevant dispensation to |

| | |
|---|---|
| | inform them of the resolution of the committee on the 4 September, whereby their dispensations will expire on the 2 October 2017 unless they contact the Monitoring Officer, or Deputy Monitoring Officer, to request that their dispensations are extended. |
| 1.02 | The following dispensations were accordingly extended until the 2 October 2017:<br><br><u>Town Councillors Stephen Rodham and Shelley Streeter</u><br><br>The dispensations granted by the Committee on the 4th of July 2016 in respect of the Community Asset Transfer of the Community Centre, Library and Youth Centre.<br><br><u>Community Councillors J Lamb and H Lamb</u><br><br>The dispensations granted by the Committee on the 9th of February 2015 in respect of their ability to speak about sites, other than their own, which have been submitted for inclusion in the Local Development Plan..<br><br><u>County Councillor Veronica Gay</u><br><br>The dispensation granted by the Committee on the 4th of July 2016 in respect of the Community Asset Transfer of the Community Centre, Library and Youth Centre.<br><br><u>Community Councillor K Houghton and other members of the Argoed Community Council who were represented on MIFFY</u><br><br>That the dispensation granted by the Committee on the 14th of September 2009 relating to the provision of youth facilities in the community council area.<br><br>At the time of writing this report Councillor Veronica Gay is the only Councillor to contact the Monitoring Officer or Deputy Monitoring Officer to request that her dispensation is extended.<br><br>The Clerk to Argoed Community Council has contacted the Deputy Monitoring Officer to confirm that the dispensations relating to MIFFY are no longer relevant or required.<br><br>If any further requests are made to extend the above dispensations before the meeting of the committee on the 2 October 2017 this will be reported verbally to that meeting. |

| **2.00** | **RESOURCE IMPLICATIONS** |
|---|---|
| 2.01 | N/A |

| **3.00** | **CONSULTATIONS REQUIRED / CARRIED OUT** |
|---|---|
| 3.01 | Councillors who have an effective dispensation that is due to expire on the 2 October 2017, following the resolution of the committee on the 4 September 2017, have been informed that should they wish for their dispensations to be extended they must contact the Monitoring Officer or Deputy Monitoring Officer in advance of the meeting on the 2 October 2017. |

| 4.00 | **RISK MANAGEMENT** |
|---|---|
| 4.01 | N/A |

| 5.00 | **APPENDICES** |
|---|---|
| 5.01 | N/A |

| 6.00 | **LIST OF ACCESSIBLE BACKGROUND DOCUMENTS** | |
|---|---|---|
| 6.01 | **Contact Officer:**<br>**Telephone:**<br>**E-mail:** | Matthew Georgiou, Deputy Monitoring Officer<br>01352 702330<br>matthew_georgiou@flintshire.gov.uk |

| 7.00 | **GLOSSARY OF TERMS** |
|---|---|
| 7.01 | N/A |

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

**FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL – STANDARDS COMMITTEE – FORWARD WORK PROGRAMME**

| Date of Meeting | Topic | Notes/Decision/Action |
|---|---|---|
| **November 2017** | • Training<br>• Dispensations<br>• N W County Forum Meeting | <br><br>24 November, Guildhall, Wrexham |
| **October 2017** | • Training<br>• Dispensations<br>• Recruitment<br><br>• Joint Meeting with Town and Community Councils | <br><br>MO to provide update on recruitment of lay person<br><br>2 October - Joint meeting with Town and Community Councils to be attended by the Ombudsman, Mr Nick Bennett |

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol